# Trowch eich dogfen Excel yn ffeil .csv

Defnyddir ffeiliau CSV gan ddau o'r offer gwe DataBasic: ASKcsv a ConnectTheDots. Mae ASKcsv yn caniatáu i chi ddadansoddi tablau data. Mae ConnectTheDots yn dangos i chi sut mae'r data yn eich ffeil csv yn gysylltiedig drwy ei ddadansoddi fel rhwydwaith. Gallwch naill ai ddefnyddio un o'n setiau data sampl neu uwchlwytho eich data eich hun. I uwchlwytho eich hun, rhaid ei gadw fel ffeil csv. Isod byddwn yn dangos i chi sut i greu ffeil csv a'i uwchlwytho i ASKcsv. Mae'r un broses yn berthnasol i ConnectTheDots.

## Beth yw ffeil .csv?


Mae ffeiliau .csv yn fath o ffeil a ddefnyddir yn gyffredin i storio tablau data. Mae 'csv' yn sefyll am Comma Separated Value. Mewn ffeil .csv, mae'r gwerthoedd o fewn eich ffeil testun yn cael eu gwahanu gan gomma ',' a defnyddir llinell newydd neu doriad llinell i wahanu cofnodion.

Mae ffeiliau.csv yn cael eu defnyddio gan ysgrifenwyr cod a sefydliadau ledled y byd. Fodd bynnag, efallai eich bod chi'n fwy cyfarwydd â ffeiliau .xlsx, .xls neu .ods, sy'n daenlen neu ddogfen Excel.


## Sut allaf droi fy nata Excel yn ffeil .csv?

Dyma sut i droi'ch dogfen Excel yn ffeil .csv i'ch galluogi i redeg eich data trwy'r gwe-offeryn ASKcsv.

1. Cliciwch ar 'File' ar frig ochr chwith y bar offer




2. O’r gwymplen, cliciwch ‘Save a Copy’




3. Fe welwch ddangosydd sy’n debyg i hyn (gydag enw’ch dogfen chi, yn hytrach na’n henghraifft ni)
Cliciwch ar y gwymplen yn yr ail flwch



4. Bydd dewislen hir yn ymddangos, gydag opsiynau i gadw'ch ffeil mewn amrywiaeth o fformatau. Mae sawl opsiwn ffeiliau .csv y gallwch chi eu dewis ond rydym ni'n argymell yr opsiwn "CSV – Comma delimited"




5. Gwiriwch eich bod wedi dewis yr opsiwn cywir, dewiswch enw ffeil newydd os dymunwch, a chliciwch Save




Nawr, mae eich ffeil yn barod I'w lanlwytho!

6. Llywiwch i'r teclyn gwe rydych chi am ei ddefnyddio. Mae'r delweddau isod yn dangos offeryn gwe ASKcsv fel enghraifft. Cliciwch ar y botwm 'uwchlwytho ffeil'



7. Dylai'r ddelwedd hon ymddangos, cliciwch 'lanlwytho ffeil' eto ac fe welwch ffenestr naid lle gallwch chi weld eich ffeil .csv newydd! Ar ôl i chi ddewis eich ffeil chi – cliciwch dadansoddi.





Nawr bydd y gwe-offeryn yn dadansoddi'ch ffeil .csv – ewch yn eich blaen i edrych ar y siartiau a dechrau gofyn cwestiynau da!

## Beth os nad oes gennyf fi Excel?


Os nad oes gennych chi fynediad i Excel, gallwch chi ddilyn y cyfarwyddiadau hyn gan ddefnyddio apiau Microsoft 365 am ddim ar y we. Defnyddiwch y ddolen hon i gofrestru ac yna dilyn y camau hyn i greu dogfen .csv:

1. Cliciwch ar 'File' ar frig ochr chwith y bar offer





2. Ychwanegwch eich set ddata yn y daenlen.

3. O'r gwymplen, cliciwch 'Export'



4. Cliciwch ar 'Export' ac yna clicio'r opsiwn "Download as CSV'.




Bydd y ffeil .csv yn ymddangos yn ffolder 'Downloads' eich cyfrifiadur.